# Arian - termau allweddol

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 2 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cyllidebu

Prosiect Paratoi

| | |
|---|---|
| AER Cyfradd Flynyddol Gyfatebol) | Term sy'n disgrifio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r cynilion sydd gen ti. |
| APR (Cyfradd Ganrannol Flynyddol) | Term sy'n disgrifio'r gyfradd llog a chostau eraill sy'n berthnasol i daliadau cerdyn credyd a benthyciadau. |
| Ad-daliadau | Swm mae'n rhaid i ti dalu tuag at fenthyciad. |
| Adroddiad/ Cyfriflen | Rhestr o'r holl daliadau i mewn ac allan mewn cyfnod penodedig o amser (mis fel arfer). |
| Adwerthwr Taliadau Wythnosol | Cwmni sy'n cynnig eitemau, rhai trydanol fel arfer, i gwsmeriaid am dâl wythnosol. Mae hwn yn ddull drud iawn o fenthyg fel rheol o gymharu â chael benthyciad o rywle arall. |
| Balans | Yr arian sydd yn dy gyfrif neu'r swm sydd ar ôl i'w dalu ar fenthyciad/gerdyn credyd. |
| Banc | Sefydliad sy'n cynnig nifer o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag arian, gan gynnwys bancio o ddydd i ddydd, cynilion, benthyciadau a morgeisi. |
| Benthyciadau | Arian rwyt ti'n ei fenthyg gan rywun ac yn cytuno i'w dalu'n ôl dros gyfnod o amser. |
| Benthyciwr Arian Didrwydded (Loan Shark) | Unigolyn sy'n rhoi benthyg arian (yn anghyfreithlon) ond sy'n codi llog gormodol. Gall fynnu bod arnat ti fwy o arian iddo hyd yn oed os wyt ti wedi talu'r ddyled. |
| Bil | Adroddiad wedi'i brintio neu'i ysgrifennu sy'n dangos faint sydd arnat ti am nwyddau neu wasanaeth. |
| Blaendal | Cost ymlaen llaw y gall fod rhaid i ti ei dalu wrth ddechrau tenantiaeth neu wrth brynu eitem trwy gynllun rhentu i brynu. |
| Budd-dal Plant | Arian rwyt ti'n ei gael i'th helpu gyda chostau plentyn. |
| Budd-daliadau | Arian rwyt ti'n gallu ei hawlio gan y Llywodraeth. Er enghraifft os wyt ti heb waith, os oes gennyt anabledd, os oes gen ti blentyn ac ati. |
| Cerdyn Credyd | Rwyt ti'n gallu defnyddio'r cerdyn yma i brynu eitemau a thalu amdanyn nhw'n nes ymlaen. Bydd llog yn cael ei godi achos bod ti'n benthyg arian. |

| | |
|---|---|
| Cerdyn Debyd | Cerdyn rwyt ti’n gallu ei gael a'i ddefnyddio i dynnu arian o'r banc trwy beiriant twll yn y wal neu i dalu am nwyddau/wasanaethau. Dwyt ti ddim yn cael codi mwy o arian na’r swm sydd gen ti. |
| Cerdyn wedi'i Ragdalu | Rwyt ti’n gallu defnyddio’r cerdyn yma i brynu eitemau mewn siopau. Rhaid i ti ofalu llwytho arian ar y cerdyn cyn mynd i siopa. Fe gei di wario’r swm o arian sydd ar y cerdyn a dim mwy. |
| Contract | Cytundeb cyfreithiol rwyt ti'n ymrwymo iddo fe lle mae'n rhaid i ti dalu arian am nwyddau neu wasanaeth am gyfnod penodedig o amser. Neu gontract cyflogaeth sy'n disgrifio dy gyflog, gwyliau blynyddol ac ati. |
| Costau | Yr holl arian mae'n rhaid i ti ei dalu allan. |
| Credyd Cynhwysol | Budd-dal rwyt ti'n ei gael os wyt ti heb waith neu ar incwm isel iawn. |
| Cyfleustodau | Enw ar gyflenwadau dŵr, trydan a nwy. |
| Cyflog Byw Cenedlaethol | Diffiniad arall o'r isafswm cyflog. Yr isafswm yr awr y mae'n rhaid i gwmni ei dalu i chi am weithio iddyn nhw. Mae hyn yn rhan o'r gyfraith, ac nid yw'n ddewisol. Y swm o fis Ebrill 2020 yw £6.45 yr awr (pobl 18-20 oed); £8.20 (pobl 21-24 oed); £8.72 (25+). |
| Cyflog Byw Go Iawn | Y gyfradd fesul awr mae'r Living Wage Foundation yn credu dylai pobl ei chael pan fydd ganddyn nhw swydd. Dydy’r gyfraith ddim yn mynnu’r swm yma ond mae rhai cwmnïau wedi dewis talu'r gyfradd hon i'w staff. Mae'n £9.30 yr awr ar hyn o bryd. |
| Cyflogedig | Pan fydd gen ti swydd gyda chwmni/sefydliad. |
| Cyfrif Cyfredol | Yr enw ar gyfrif banc sy'n caniatáu i ti dalu budd-daliadau/cyflog i mewn, a thalu biliau ac ati allan. |
| Cyfrif Cynilo â Rhybudd | Ffordd o gynilo lle mae'n rhaid dweud wrth y banc os wyt ti am dynnu arian allan, ac aros am hyn a hyn o ddyddiau cyn ei gael. |
| Cyfrif Sylfaenol | Cyfrif banc sylfaenol heb orddrafft. |
| Cyngor ar Bopeth | Lle sy'n cynnig cyngor ar lawer iawn o faterion, gan gynnwys budd-daliadau lles, dyledion, sgamiau, arbed ynni a llawer mwy. |
| Cyllideb | Cynllun sy'n dangos faint o arian sy'n dod i mewn neu'n mynd allan. |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Adeiladu | Mae'n cynnig yr un gwasanaethau â'r banc ond mae'r sefydliad wedi'i drefnu'n wahanol. |
| Cymhelliad | Cynnig mae cwmni'n ei wneud i geisio dy ddenu i brynu nwyddau neu wasanaeth. |
| Cynilion | Arian rwyt ti wedi'i roi heibio ar gyfer pethau hoffet ti eu prynu yn y dyfodol. |
| Cynilion Mynediad Hwylus (Easy Access Savings) | Ffordd o gynilo faint fynni di o arian a thynnu arian allan fel y bydd eisiau. |
| Cynilo Rheolaidd | Ffordd o roi swm penodol o arian heibio bob mis. |
| Debydau Uniongyrchol | Ffordd o dalu biliau. Bydd y swm yn cael ei dynnu'n awtomatig o'th gyfrif. |
| Di-waith | Pan does dim swydd gen ti. |
| Dyled | Dyma'r arian sydd arnat ti i fanc neu gwmni. |
| Elfen cost tai (housing cost element) | Arian mae'n bosib ei gael i'th helpu i dalu'r rhent. |
| Gorddrafft | Rhwyd ddiogelwch fach mae banc yn gallu ei rhoi i ti os bydd dy arian yn rhedeg allan. Mae'n ddull o fenthyg arian, ond gall banciau godi tâl arnat ti am ddefnyddio'r gorddrafft. |
| Gorddrafft heb ei awdurdodi | Ystyr hyn yw gwario mwy o arian nag sydd yn dy gyfrif heb drefnu gorddrafft ymlaen llaw. Bydd ffioedd am wneud hynny a byddan nhw'n tyfu'n gyflym. |
| Gorddrafft wedi'i awdurdodi | Gorddrafft rwyt ti wedi'i drefnu ymlaen llaw gyda'r banc. Mae'n bosib bydd rhai banciau'n cynnig gorddrafft am ddim, ond bydd angen i ti wirio hynny. Mae hwn yn ddull o fenthyg arian. |
| Grant | Arian rwyt ti'n gallu gwneud cais amdano heb orfod ei dalu'n ôl. |
| Gwasanaethau | Cwmni sy'n darparu/gwneud rhywbeth i ti, fel siop trin gwallt. |

| | |
|---|---|
| Incwm | Yr holl arian sy'n dod i mewn. |
| Isafswm cyflog | Yr isafswm yr awr y mae'n rhaid i gwmni ei dalu i chi am weithio iddyn nhw. Mae hyn yn rhan o'r gyfraith, ac nid yw'n ddewisol. Y swm o fis Ebrill 2020 yw £6.45 yr awr (pobl 18-20 oed); £8.20 (pobl 21-24 oed); £8.72 (25+). |
| Junior ISA | Math o gyfrif cynilo. Os wyt ti wedi bod mewn gofal am gyfnod o fwy na 12 mis, bydd Llywodraeth Cymru/Awdurdod Lleol wedi agor ISA person ifanc i ti. Byddi di'n cael mynediad at yr arian yma pan fyddi di'n 18 |
| Lwfans Treth Personol | Y swm cei di ennill mewn swydd cyn dechrau talu treth incwm. |
| Llog | Cost benthyg arian o rywle neu wobr am gynilo arian. |
| Mastercard | Cwmni sy'n darparu cardiau debyd a chardiau credyd. |
| Nwyddau | Eitemau ffisegol rwyt ti'n eu prynu, fel esgidiau, teganau ac ati. |
| Ôl-ddyledion | Mae hyn yn golygu dy fod ti'n hwyr yn talu bil neu rent. |
| Peiriant arian parod (ATM) | Peiriant twll yn y wal yw'r enw mwy cyffredin arno. Rwyt ti'n gallu tynnu arian allan ohono. Mae rhai peiriannau am ddim ond mae eraill yn codi ffi. |
| Prynu nawr a thalu wedyn | Dull benthyg sy'n cael ei gynnig yn siopau'r stryd fawr lle rwyt ti'n prynu eitem nawr ac yn talu amdano mewn rhandaliadau dros y misoedd nesaf NEU bydd dewis i ti dalu ymhen 30 diwrnod. Os nad wyt ti'n talu'r ddyled, bydd hynny'n effeithio ar dy statws credyd. |
| Rhent | Y swm rwyt ti'n talu am fyw yn dy gartref. |
| Rhif Adnabod Personol (PIN) | Rhif rwyt ti'n ei gael pan gei di gerdyn debyd neu gerdyn credyd newydd. |
| Sglodyn a Rhif Adnabod (Chip and PIN) | Ffordd o ddefnyddio dy gerdyn fel dull talu trwy roi'r cerdyn mewn peiriant cardiau a defnyddio dy rif adnabod personol. |
| Sgôr Credyd | Mae cwmnïau benthyciadau'n defnyddio'r sgôr yma wrth benderfynu pa mor beryglus fyddai rhoi benthyciad i ti. Mae'r sgôr yn seiliedig ar faint o ddyled sydd gen ti, wyt ti'n talu'n brydlon, ac ati. Felly os wyt ti'n benthyg arian trwy'r amser neu ddim yn talu mewn pryd, bydd hynny'n effeithio ar dy sgôr a'th allu i gael benthyciadau yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| Taliad ymlaen llaw | Arian sy’n cael ei dalu i ti cyn pryd. Felly, byddi'n cael llai o arian ar yr union ddyddiad talu neu bydd rhaid i ti dalu rhywfaint ohono’n ôl dros gyfnod penodedig o amser. |
| Taliadau digyffwrdd | Ffordd o dalu trwy dapio’r cerdyn debyd/ cerdyn credyd yn erbyn y peiriant cardiau mewn siop. |
| Treialu am ddim | Rwyt ti'n cael gwasanaeth am ddim am gyfnod penodedig o amser - 30 diwrnod efallai. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, rwyt ti’n cael tanysgrifiad awtomatig os nad wyt ti'n gofyn i'r cwmni beidio â gwneud hynny. Mae taliadau’n cael eu casglu pan fydd gen ti danysgrifiad awtomatig. |
| Treth Incwm | Treth sy'n cael ei thalu ar yr incwm rwyt ti'n ennill yn dy swydd. |
| Treth y Cyngor | Treth mae angen i unigolion ei thalu tuag at gasgliadau sbwriel, llyfrgelloedd, gwasanaethau ieuenctid, iechyd yr amgylchedd, yr heddlu a'r gwasanaethau brys ac ati. |
| Trwydded deledu | Ffi mae'n rhaid ei thalu os wyt ti'n gwylio neu'n ffrydio rhaglenni yn fyw ar y teledu neu trwy BBC iPlayer. |
| Undeb Credyd | Sefydliad lleol sy'n cynnig cyfrifon cynilo a benthyciadau bach i'w aelodau. |
| VISA | Cwmni sy'n darparu cardiau debyd a chardiau credyd. |
| Yswiriant Gwladol | Rwyt ti'n talu’r dreth hon pan fydd swydd gen ti. Mae'n ariannu budd-daliadau'r wladwriaeth. |